A fydd angen trallwysiad gwaed ar eich plentyn?

Fel pob triniaeth feddygol, dim ond os yw'n hanfodol y dylid rhoi trallwysiad gwaed.

Dim ond ar ôl ystyriaeth ofalus y gwneir y penderfyniad i roi trallwysiad gwaed i'ch plentyn. Wrth wneud y penderfyniad hwnnw, bydd meddyg eich plentyn yn ystyried y risg o roi trallwysiad gwaed i'ch plentyn yn erbyn y risg o beidio. Dylai meddyg neu nyrs eich plentyn egluro i chi pam fod angen trallwysiad ar eich plentyn, a ph'un a oes triniaethau amgen posibl ar gael. Os na fydd yn gwneud hynny, dylech ofyn.

Pam y gallai fod angen trallwysiad gwaed ar eich plentyn?

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymdopi'n dda gyda cholli swm cymedrol o waed; gellir rhoi hylifau eraill yn lle'r hylif a gollwyd. Dros yr ychydig wythnosau nesaf, bydd y corff yn creu celloedd gwaed coch newydd yn lle'r rhai a gollwyd.

Os collir llawer mwy o waed na hyn, trallwysiad yw'r ffordd orau o roi gwaed yn gyflym yn lle'r gwaed a gollwyd.

Gellir rhoi trallwysiadau gwaed yn lle gwaed a gollir mewn llawdriniaeth, neu ar ôl damweiniau difrifol, neu gellir eu defnyddio i drin anemia (diffyg celloedd gwaed coch) a achosir gan fethiant y corff i greu digon o gelloedd gwaed addas.

Ni ellir cyflawni rhai triniaethau meddygol neu lawdriniaethau yn ddiogel heb roi unrhyw waed.

Beth y gellir ei wneud i leihau angen fy mhlentyn am waed cyn llawdriniaeth?

- Dylech annog eich plentyn i fwyta deiet cytbwys yn ystod yr wythnosau cyn ei lawdriniaeth. Mae taflen o'r enw 'Haearn yn eich deiet' ar gael oddi wrth Wasanaeth Gwaed Cymru, sy'n rhoi rhagor o gyngor ar hyn.
- Efallai y bydd angen cynyddu lefelau haearn eich plentyn- gofynnwch i feddyg neu uwch nyrs eich plentyn am gyngor, yn enwedig os byddwch yn gwybod bod lefelau haearn eich plentyn wedi bod yn isel yn y gorffennol.
- Os bydd eich plentyn yn cymryd meddyginiaethau i deneuo'r gwaed neu feddyginiaethau gwrthlidiol, gallai rhoi'r gorau i gymryd y cyffuriau hyn leihau'r gwaed a gollir yn ystod y llawdriniaeth ac yn y cyfnod wedi hynny; ond dylech ofyn i feddyg neu uwch nyrs eich plentyn a yw'n ddiogel iddo roi'r gorau i'r meddyginiaethau hyn cyn y llawdriniaeth.

Cofiwch, er mwyn diogelwch eich plentyn, dim ond gweithiwr meddygol cymwys proffesiynol all wneud y penderfyniad hwn.

Weithiau, mae'n bosibl casglu gwaed a gollir yn ystod llawdriniaeth neu ar ôl llawdriniaeth, a'i roi yn ôl i'ch plentyn. Efallai y byddwch am ofyn a yw'r dull hwn ar gael yn yr ysbyty, neu a yw'n addas yn achos eich plentyn.

A allaf roi fy ngwaed i fy mhlentyn?

Na. Mae hwn yn gwestiwn cyffredin ond mae rhesymau da pam na chaiff hyn ei wneud. Mae risg uwch o rai mathau o adweithiau difrifol yn dilyn trallwysiad gwaed gan berthynas. Oni chaiff gwaed gan berthynas agos ei drin yn arbennig gyda phelydrau-x, mae perygl y gall y gwaed a gaiff ei drallwyso dwyllo system imiwnedd y plentyn a'I fêr esgyrn, ac o ganlyniad, bydd y mêr esgyrn yn methu. Mae'n well osgoi'r risg hon.

Ydy trallwysiad gwaed yn ddiogel?

Ydy. Mae'r risg y bydd trallwysiad gwaed yn achosi i'ch plentyn fynd yn sâl yn fach iawn. Un o'r ffyrdd pwysicaf o sicrhau trallwysiad diogel yw gwneud yn siŵr bod eich plentyn yn cael y gwaed cywir. Er mwyn sicrhau bod eich plentyn yn cael y plasma cywir, bydd staff yn cadarnhau enw a manylion eich plentyn yn ofalus pan fyddant yn cymryd samplau gwaed a hefyd, gyda'r bag o blasma, cyn ei roi. Dyma pam ei bod yn bwysig i'ch plentyn wisgo band adnabod. Os ydych chi gyda'ch plentyn, dylid gofyn i chi hefyd gadarnhau ei enw llawn, ei gyfeiriad a'i ddyddiad geni. Dylech atgoffa'r nyrs neu'r meddyg i ofyn hyn i chi os na fydd yn gwneud hynny.

GGC Cyf: 161E Fersiwn 1.1 05/18

GIG CYMRU NHS WALES
Ymddiriedolaeth GIG Felindre Velindre NHS Trust

O'i gymharu â risgiau cyffredin eraill, mae'r tebygolrwydd o gael haint o drallwysiad gwaed yn fach iawn. Mae rhoddwyr gwaed yn cael eu dewis yn ofalus iawn, a chaiff y gwaed a roddir ei brofi er mwyn sicrhau ei fod yn addas ar gyfer trallwysiad.

Mae'r risg o gael hepatitis o drallwysiad gwaed yn y DU tua un mewn 670,000 ar gyfer hepatitis B, ac un mewn 83 miliwn ar gyfer hepatitis C (cyhoeddwyd mis Ionawr 2011). Mae'r risg o gael haint HIV (Feirws Imiwnoddiffygiant Dynol) tua 1 mewn 5 miliwn, neu'r haint HTLV (Feirws T Lymffotropig Dynol) tua 1 mewn 18 miliwn. Er bod y risg o gael clefyd amrywiolyn Creutzfeldt-Jakob (vCJD) o drallwysiad gwaed fwy na thebyg yn fach ar ôl cael un trallwysiad gwaed, bydd y risg o gael unrhyw haint yn cynyddu gyda thrallwysiadau gwaed ychwanegol. Bob blwyddyn, caiff tua 2.5 miliwn o unedau o waed eu trallwyso yn y Deyrnas Unedig, a dim ond llond llaw o achosion a gofnodwyd lle y cafodd cleifion haint vCJD o drallwysiad gwaed.

Sut mae gwaed yn cael ei roi?

Fel arfer, rhoddir trallwysiad gwaed drwy diwb bach iawn yn syth i mewn i wythïen. Bydd faint o amser y bydd pob trallwysiad yn ei gymryd yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau; bydd meddyg neu nyrs eich plentyn yn gallu dweud mwy wrthych am hyn. Mae'n bosibl y bydd eich plentyn yn cael mwy nag un bag o waed fel rhan o'i driniaeth.

Sut fydd fy mhlentyn yn teimlo yn ystod eu trallwysiad?

Ni fydd y rhan fwyaf o blant yn teimlo'n wahanol o gwbl yn ystod eu trallwysiad. Fodd bynnag, bydd rhai yn datblygu rhywfaint o dwymyn, oerni neu frech. Bydd hyn yn digwydd fel arfer oherwydd adwaith neu alergedd ysgafn, a gellir eu trin yn hawdd gan ddefnyddio meddyginiaeth neu drwy roi'r gwaed yn arafach. Caiff eich plentyn ei fonitro'n ofalus cyn y trallwysiad, yn ystod y driniaeth, ac ar ôl y driniaeth. Yn ffodus, mae adweithiau difrifol i waed yn anghyffredin iawn. Os byddant yn digwydd, mae staff wedi'u hyfforddi i'w hadnabod a'u trin. Os bydd eich plentyn yn teimlo'n sâl yn ystod ei drallwysiad gwaed neu ar ôl hynny, rhowch wybod i'r nyrs
ar unwaith.

Beth os oes gan fy mhlentyn a minnau bryderon eraill am drallwysiadau gwaed?

Efallai y bydd ofn nodwyddau ar eich plentyn, efallai y bydd yn poeni am deimlo'n sâl wrth weld gwaed, neu efallai y bydd wedi cael profiad gwael wrth gael trallwysiad gwaed yn y gorffennol. Dywedwch wrth eich meddyg neu nyrs am unrhyw bryderon a allai fod gennych chi neu'ch plentyn, waeth pa mor ddibwys ydynt yn eich barn chi. Mae gan lawer o ysbytai Dîm Trallwyso penodol, ac mae'n bosibl y gall aelod o'r tîm ddod i drafod eich pryderon gyda chi.

Sut y gallaf ddod yn rhoddwr gwaed?

Yn genedlaethol, rydym yn defnyddio miloedd o unedau o waed y flwyddyn wrth drin plant.

Noder fel mesur rhagofalus i leihau'r risg o drosglwyddo vCJD, na all pobl sydd wedi cael trallwysiad gwaed ers 1980 roi gwaed ar hyn o bryd.

Os hoffech helpu eraill drwy roi gwaed, ffoniwch **0800 252266** neu ewch i'n gwefan **www.gwaedcymru.org**

Ffynonellau ychwanegol o Wybodaeth

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am drallwysiadau gwaed a bod gennych fynediad i'r rhyngrwyd, efallai y bydd y gwefannau canlynol yn ddefnyddiol i chi:

Gwasanaeth Gwaed Cymru
www.gwaedcymru.org.uk

NHS Choices
www.nhs.uk/conditions/blood-transfusion

NHSBT
www.blood.co.uk

Er mwyn cynllunio ar gyfer y galw am waed yn y dyfodol, mae angen caslu gwybodaeth am ba gleifion sy'n derbyn gwaed. Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i ysbyty neu feddyg teulu i roi gwybodaeth feddygol gyfyngedig am sampl o gleifion sydd wedi cael trallwysiadau gwaed. Mae unrhyw wybodaeth sydd yn cael ei hanfon ymlaen i GGC yn cael ei chadw'n ddiogel, ac mae hawliau'r cleifion hyn yn cael eu diogelu o dan y ddeddfwriaeth diogelu data.

GGC Cyf: 161E Fersiwn 1.1 05/18

GIG CYMRU NHS WALES
Ymddiriedolaeth GIG Felindre Velindre NHS Trust

I gael copïau ychwanegol o'r daflen hon ynghyd ag unrhyw wybodaeth bellach, ffoniwch Gwasanaeth Gwaed Cymru ar 01443 622126.

Hoffem ddiolch i wasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG am gynnwys gwreiddiol y daflen hon.

Gwasanaeth Gwaed Cymru

0800 252266

gwaed-cymru.org.uk

GGC Cyf: 161E Fersiwn 1.1 05/18

GIG CYMRU NHS WALES
Ymddiriedolaeth GIG Felindre Velindre NHS Trust